# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 9 Ionawr 2017

Amser: 14.00 - 15.51

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3906

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Anne Beegan<br>Gillian Body<br>Gareth Jones<br>Matthew Mortlock<br>Dave Thomas<br>Fay Bowen (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor.
1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil McEvoy AC. Ni chafwyd dirprwy ar ei ran.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Llywodraethiant Bwrdd Iechyd GIG Cymru: Llythyr gan Dr Kate Chamberlain, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (12 Rhagfyr 2016)

### 2.2 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (14 Rhagfyr 2016)

## 3 Gweithdrefnau ac Arferion Gwaith y Pwyllgor

3.1 Trafododd yr Aelodau'r papur a thrafododd yr awgrymiadau sydd ynddo.
3.2 Bydd y Clercod yn paratoi papur pellach ac yn cynnwys enghreifftiau o fodelau gwaith gwahanol er mwyn galluogi'r Aelodau i gael trafodaeth bellach.

## 4 Gwasanaethau Orthopedig: y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

4.1 Trafododd yr Aelodau wybodaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru am fwrw ymlaen â'r argymhellion a geir yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015, a nodwyd fod Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr y GIG, yn mynychu cyfarfod y Pwyllgor ar 23 Ionawr er mwyn archwilio'r wybodaeth ddiweddaraf ymhellach.
4.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Dr Goodall cyn y cyfarfod yn rhoi gwybod iddo am feysydd y mae'r Aelodau wedi mynegi diddordeb yn eu trafod gydag ef.

## 5 Amseroedd Aros y GIG ar gyfer Gofal Dewisol yng Nghymru: y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

5.1 Trafododd yr Aelodau wybodaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru am fwrw ymlaen â'r argymhellion a geir yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015, a nodwyd fod Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr y GIG, yn mynychu cyfarfod y Pwyllgor ar 23 Ionawr er mwyn archwilio'r wybodaeth ddiweddaraf ymhellach.

## 6 Consortia Addysg Rhanbarthol: papur cwmpasu'r ymchwiliad

6.1 Trafododd yr Aelodau'r papur cwmpasu a:

- chytunwyd ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad;
- trafodwyd y rhestr awgrymedig o dystion;
- cytunwyd i gynnal ymgynghoriad ysgrifenedig; a
- chytunwyd i gynnal ymgynghoriad ar-lein gydag athrawon a phenaethiaid.

## 7 Archwilydd Cyffredinol Cymru - Blaenraglen waith

7.1 Trafododd yr Aelodau'r gwaith sydd ar y gweill a nodwyd eu dewis ar gyfer y gwaith hwnnw a geir ym mlaenraglen waith Archwilydd Cyffredinol Cymru a nododd y byddai'r eitem hon yn cael ei thrafod ymhellach yn y cyfarfod ar 16 Ionawr 2017.

## 8 Darpar Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru: Trafod y llythyr drafft

8.1 Cytunodd yr Aelodau ar y llythyr drafft a fydd yn cael ei anfon cyn i'r Ysgrifennydd Parhaol newydd ddechrau yn ei swydd ar 6 Chwefror 2017.